NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Gofal dilynol datblygiadol babanod cynamserol

19 Awst 2017

## *Pa gymorth a gofal dilynol i'w disgwyl os cafodd eich plentyn ei eni'n gynamserol*

Mae'r rhan fwyaf o fabanod sy'n cael eu geni'n 'gynamserol' (cyn cyfnod o 37 wythnos o feichiogrwydd) yn mynd ymlaen i gael plentyndod iach. Ond maent yn fwy tebygol na phlant eraill o gael problemau gyda thyfu a datblygu neu y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt, yn enwedig os cawsant eu geni'n gynnar iawn. Hoffem sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth i deuluoedd plant a gafodd eu geni'n gynamserol drwy sicrhau'r canlynol:

- rydych yn gwybod pa gymorth i'w ddisgwyl pan fydd eich plentyn cyntaf yn dod adref o'r ysbyty – a bod gennych ran bwysig yn y gwaith o gynllunio hyn
- bod gweithwyr proffesiynol yn sicrhau eich bod yn gwybod beth y dylech gadw llygad allan amdano wrth i'ch plentyn dyfu, a'ch bod yn gwybod â phwy y gallech siarad os oes gennych unrhyw bryderon
- bod eich plentyn yn cael ymweliadau gofal dilynol ychwanegol os bydd angen, gan gynnwys un yn 4 oed os cafodd ei eni cyn 28 wythnos – bydd hyn yn helpu i nodi unrhyw broblemau cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol.

### Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eich plentyn roi gwybodaeth glir y gallwch ei deall ar bob cam i chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

Dylent hefyd wneud y canlynol:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr hyn sy'n digwydd gyda gofal eich plentyn yn yr ysbyty
- esbonio a gwneud yn siŵr eich bod yn deall canlyniadau unrhyw asesiadau y mae eich plentyn yn eu cael
- gofyn am eich caniatâd i rannu gwybodaeth gyda gweithwyr proffesiynol eraill a fydd yn gweithio gyda'ch plentyn wrth iddo dyfu, er enghraifft, ysgol eich plentyn.

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dwedwch hynny wrth eich gweithiwr iechyd proffesiynol.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau.

**Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?**

Gall y sefydliad isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- Bliss, 0808 801 0322
  www.bliss.org.uk

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y wefan hon.

Gwnaethom ysgrifennu'r canllaw hwn gyda rhieni plant a gafodd eu geni'n gynnar a gyda staff sy'n eu cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-2627-5

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights